

Cefn Gwlad

www.aber.ac.uk/cy/ibers

NEWYDDION

Hydref 2009

Myfyrwyr Twristiaeth yn Darganfod Gogledd Cymru

Dychwelodd myfyrwyr Twristiaeth blwyddyn gyntaf yn ddiweddar o daith astudio dri diwrnod i Ogledd Cymru. Cafodd y myfyrwyr, a oedd yn aros mewn hostel yng nghanol Parc Cenedlaethol Eryri, gyferbyn â Rhaeadr Ewynnol, gyfle i astudio gwahanol bynciau. Yn eu plith roedd adfywio trefol drwy dwristiaeth, swyddogaeth twristiaeth mewn Parciau Cenedlaethol a thwristiaeth dreftadaeth. Datblygwyd ar y themâu hyn drwy ymweld â Chaernarfon, Betws y Coed, Beddgelert, y Mynydd Gwefru, Amgueddfa Lechi Cymru yn Llanberis, Portmeirion, Abermaw ac aethpwyd ar daith ar Reilffordd Ucheldir Cymru. Defnyddiwyd gweithdai gyda'r hwyr ac ymarferion chwarae rôl i integreiddio deunydd a ddatblygwyd drwy'r ymweliadau.

Ymchwil myfyrwyr

Yn y drydedd flwyddyn mae'n rhaid i fyfyrwyr gradd BSc gyflawni darn o waith ymchwil (a elwir yn draethawd estynedig). Gall myfyrwyr ddewis eu pwnc ymchwil eu hunain dan gyfarwyddyd y staff academaidd. Eleni, yn ôl yr arfer, yr ydym wedi cael amrywiaeth o bynciau diddorol sy'n cynnwys:

- **Coedwigoedd cymunedol yng Nghymru – canfyddiad, agweddau a hoffterau'r gymuned**
- **Effaith uchder ar ddsbarthiad chwilod**
- **A yw gwahanol gymysgeddau masnachol o hadau adar yn denu gwahanol rywogaethau o adar?**
- **Dylanwadau glannau afon ar gymunedau o anifeiliaid di-asgwrn-cefn mewn systemau afonydd ar diroedd isel**
- **Ffiniau i gael mynediad iddynt – dadansoddiad o'r cynnydd mewn mynediad i ddyfrffyrdd mewndirol**



Y myfyrwyr yn mwynhau taith ar Reilffordd Ucheldir Cymru

Defnyddiwyd gweithdai gyda'r hwyr ac ymarferion chwarae rôl i integreiddio deunydd a ddatblygwyd drwy'r ymweliadau.

Prosiect newydd yr UE ar Fioamrywiaeth ar Dir Ffarmio

Mae Peter Dennis a'i gyd-weithwyr yn IBERS wedi cael nawdd gan yr UE i'r prosiect "BioBio" (dangosyddion ar gyfer bioamrywiaeth mewn systemau ffermio organig/mewnbwn-isel). Mae Peter yn arwain Pecyn Gwaith 2 ac, ar hyn o bryd, yn gweithio gyda phartneriaid mewn naw o wledydd ledled Ewrop er mwyn adolygu a dewis mesurau uniongyrchol ac anuniongyrchol o fioamrywiaeth ar fferm diroedd cyn mis Awst. Yna, fe fydd yn cynnal gweithdy rhyngwladol yma yn Aberystwyth ym mis Medi er mwyn dod i gytundeb ar gynnwys yr adroddiad, fel y gellir dod i gasgliadau pendant erbyn mis Hydref. Yn olaf, bydd llawlyfr maes yn cael ei gynhyrchu cyn mis Tachwedd fel y gall pob un o'r dangosyddion eu profi ar ffermydd ledled Ewrop yn ystod 2010.

Cymdeithas Gwirfoddolwyr Cadwraeth Aberystwyth

Mwynhaodd y Gymdeithas flwyddyn lwyddiannus gan ddenu aelodaeth o 330 o fyfyrwyr, sef y nifer uchaf erioed, a sicrhau

Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig IBERS ABERYSTWYTH

Rhestr Cysiau

BSc

Cadwraeth Cefn Gwlad
Rheoli Cefn Gwlad
Hamdden Cefn Gwlad a Thwristiaeth
Datblygiad Gwledig Cynaliadwy

Gradd Sylfaen

Cadwraeth Cefn Gwlad
Rheoli Cefn Gwlad
Hamdden Cefn Gwlad a Thwristiaeth

Diploma Cenedlaethol Uwch (HND)

Cadwraeth Cefn Gwlad
Rheoli Cefn Gwlad
Hamdden Cefn Gwlad a Thwristiaeth

Diddordeb?

Ffoniwch **Fay Hollick** ar **01970 624471**

rhagor o nawdd gan yr elusen amgylcheddol Cadwch Gymru'n Daclus. Cynhaliodd y Gymdeithas 22 o ddyddiau gwaith gyda chyrrff megis y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Cyngor Sir Ceredigion a Mentro Lluest. Amrywiai'r gwaith a gyflawnwyd o gynnal llwybrau a rheoli cynefinoedd, i adeiladu a gosod llwybrau estyllod, camfeydd a phontydd. Ymhlith yr uchafbwyntiau eraill yr oedd creu cysylltiadau newydd gyda Chymunedau'n Gyntaf ym Mhenparcau a'r Shared Earth Trust yn Denmark Farm. Yn wir, cymaint oedd llwyddiant y grŵp bu iddynt dderbyn gwobr 'Cymdeithas y Flwyddyn' gan Urdd Myfyrwyr y Brifysgol. Da iawn!



Tyllu i greu pwll ar gyfer gardd bywyd gwyllt

Taith Astudio i Swydd Amwythig

Cyrchfan y daith astudio i fyfyrwyr blwyddyn gyntaf Cadwraeth/Rheoli Cefn Gwlad ddechrau Mai oedd Swydd Amwythig. Ymwelwyd ag ystod eang o gynefinoedd gan gynnwys y Warchodfa Natur Genedlaethol yn Whixall Moss, sef cyforgors fawn ar dir isel lle gwneir llawer o waith atgyweirio arbrofol ar raddfa eang. Hyd ddechrau'r 1990au, draenid y gors, cai'r llystyfiant ei rwygo ymaith, a gwerthid y mawn i arddwyr. Yn sgil banllefau o brotest gan y cyhoedd, prynwyd y gors gan asiantau cadwraeth yn Lloegr a Chymru (mae'r gors ar y ffin rhwng y ddwy wlad) ac, yn awr, y mae'r lefel trwythiad yn cael ei godi'n araf drwy gau hen ffosydd, ac y mae'r tir o amgylch yn cael ei ddodi dan gytundebau rheolaeth. Mae cael gweld y safle hwn yn cael ei weddnewid wrth i'r mawn ddod yn llawn dŵr unwaith eto, yn rhyfeddol - y mae mwsoglau'r gors a phlanhigion arbenigol eraill yn dechrau ailgyfnewid yno. Yn ogystal â phlanhigion y gors, gwelodd y myfyrwyr amrywiaeth eang o adar gan gynnwys gylfinirod, hudweilch, y gnozell werdd a'r gog; fodd bynnag, yr uchafbwynt oedd gweld pâr o storciaid yn hedfan bron uwchben cyn glanio gerllaw. Mae o leiaf bedwar o fyfyrwyr Aber wedi treulio eu cyfnodau profiad gwaith Diploma Cenedlaethol Uwch (HND) yn Whixall gan gyfrannu at gadwraeth arloesol y safle arbennig hwn, ac y mae dau ohonynt, gan gynnwys Tom Whitchurch, sy'n fyfyrwr gyda ni ar hyn o bryd, wedi dewis y gors fel testun ei draethawd estynedig. Bydd Tom yn mynd ati i wneud y gwaith ymarferol yr haf hwn ac yn archwilio sut y mae newid yn lefelau'r dŵr yn cael effaith ar y gymuned blanhigion.



Whixall Moss

Myfyrwyr yn helpu i greu llwybr newydd

Mae myfyrwyr HND/Gradd Sylfaen blwyddyn gyntaf ar y modiwl Sgiliau Ystâd Ymarferol wedi bod yn gosod pompren newydd, tair giât mochyn ac yn clirio gordyfiant er mwyn agor llwybr cylchog newydd ger Aberystwyth.

Gwnaethpwyd y gwaith hwn mewn cydweithrediad ag Uned Y Glannau a Chefn Gwlad Cyngor Sir Ceredigion, ac fe'i noddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru fel rhan o gyfres o gynlluniau sy'n anelu at weithredu Cynllun Gwella Hawliau Mynediad Ceredigion. Mae prosiectau o'r math yma yn rhoi cyfle i fyfyrwyr gael profiad ymarferol gwerthfawr yn y maes, ac y maent yn rhoi boddhad i'r rhai sy'n cymryd rhan ac yn helpu'r gymuned leol ac eraill i fwynhau cefn gwlad.

Myfyrwyr yn ennill Gwobrau Teithio

Mae pedwar o fyfyrwyr IBERS wedi llwyddo i ennill gwobrau teithio o hyd at £500 gan y Clwb Lles a Dathlu. Ariannir y gwobrau hyn gan elw a wnaed ym mar coffi'r adran.



Mae enillwyr y flwyddyn hon yn ymgymryd ag ystod o brosiectau a phrofiadau ymarferol fel rhan o'u hastudiaethau. Bydd Gareth Jeffreys (2il flwyddyn BSc Sŵoleg) yn gwneud ymchwil ar forgwn morfilaidd oddi ar arfordir De Affrica a'r Seychelles gyda'r Gymdeithas Cadwraeth Môr. Bydd Jasper Kenter (2il flwyddyn BSc Rheolaeth Cefn Gwlad) yn teithio i Ynysoedd Solomon i archwilio gwerthoedd amgylcheddol mewn cymunedau gwledig sy'n wynebu bygythiadau cynyddol i'w cynaliadwyedd. Bydd Dexter Farr (blwyddyn 1af HND Rheolaeth Cefn

Gwobrau

Myfyriwr Flwyddyn cynlluniau BSc Cefn Gwlad: Jay Stebbings

Myfyriwr Flwyddyn cynlluniau FDS Sc/HND Cefn Gwlad: David Ward

Gwlad) yn mynd i weithio i Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn rhan o'i raglen profiad gwaith. Bydd Jon McCalmont (blwyddyn 1ar Gradd Sylfaen, Rheolaeth Cefn Gwlad) yn mynd ar daith chwe wythnos i orllewin Awstralia i weithio ar leoliad gwirfoddol gydag Adran yr Amgylchedd ar leiniau ymchwil Forestcheck, sy'n cynnwys samplu anifeiliaid di-asgwrn-cefn a maglu bolgogodion bychain a dilyn eu trywydd drwy gyfrwng radio.